# Ydych chi'n ofalwr sydd angen cymorth? Dyma'r hyn sydd angen i chi ei wybod…

Yn 2016, newidiodd y cymorth y gall gofalwyr eu hawlio gan eu hawdurdodau lleol, sy'n golygu bod gan ofalwyr hawl i asesiad gofalwr a chynllun cymorth.

**Beth yw asesiad gofalwr ac ydw i'n gymwys i'w gael?**

Mae asesiad gofalwr yn ffordd i wasanaethau cymdeithasol gael gwybod pa **ddeilliannau** yr hoffai gofalwr eu cyflawni a pha **gymorth** y dylai awdurdod lleol ei gynnig i helpu'r gofalwr i gyflawni'r deilliannau hyn. Gall deilliannau ymwneud â llawer o wahanol bethau gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, yr awydd cael swydd neu fynd i addysg a'r awydd gwella ei berthynas a'i deulu.

I fod yn gymwys i gael asesiad gofalwr, rhaid i chi fod yn berson sy'n ‘darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl’.

Gall asesiad helpu gwasanaethau cymdeithasol i'ch cysylltu chi â mudiadau a all eich helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnoch, neu fudiadau a allai arwain at wasanaethau cymdeithasol yn trefnu cymorth ar eich cyfer yn uniongyrchol.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng asesiad gofalwr ac asesiad o'r person dwi'n gofalu amdano?**

Mae'r rhain yn asesiadau tebyg iawn sydd wedi'u strwythuro'n debyg iawn, ond amdanoch chi yn benodol, y gofalwr, a'r hyn rydych chi am ei gyflawni y mae asesiad gofalwr. Gall y person sy'n cynnal yr asesiad awgrymu cyfuno eich asesiad gofalwr â'r person rydych chi'n gofalu amdano, ond nid oes modd iddynt eu cyfuno oni fyddwch yn dymuno iddynt wneud hynny.

Mae'n bwysig bod yn onest yn y ddau asesiad – asesiad gofalwr ac asesiad o'r person rydych chi'n gofalu amdano – am y bydd hyn yn dylanwadu ar y cymorth y mae gennych hawl iddo. Er enghraifft, peidiwch â dweud bod modd i chi ddarparu mwy o ofal na'r hyn y gallwch ei ddarparu.

Cofiwch mai diben asesiad gofalwr yw rhoi'r cymorth angenrheidiol i chi i fyw eich bywyd ac i gyflawni'r pethau rydych chi am eu cyflawni.

Carers Trust is a registered charity in England and Wales (1145181) and in Scotland (SC042870). Registered as a company limited by guarantee in England and Wales No. 7697170. Registered office: 32–36 Loman Street, London SE1 0EH.
Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1145181) ag yn yr Alban (SC042870). Cwmni cyfyngedig trwy warant, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 7697170. Swyddfa Gofrestredig: 32–36 Stryd Loman, Llundain SE1 0EH.

ⓗYmddiriedolaeth y Gofalwyr

**Unwaith i mi gael asesiad, sut caf y cymorth sydd ei angen arnaf?**

Bydd rhan o'r asesiad yn cynnwys edrych ar y cymorth rydych chi'n ei gael eisoes a'r cymorth sydd ei angen arnoch. Bydd hyn yn cynnwys y person sy'n penderfynu a ydych chi'n gymwys i gael cymorth gan yr awdurdod lleol. Os ydych chi'n gymwys, bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i drefnu cymorth ar eich cyfer.

Mae'r meini prawf cymhwysedd yn ystyried pa gymorth sydd ar gael i chi ac a ydych chi'n debygol o gyflawni'r hyn rydych chi'n dymuno ei gyflawni heb gymorth gan yr awdurdod lleol.

**Sut mae modd i mi gael asesiad?**

Y cam cyntaf yw cysylltu â'ch awdurdod lleol. Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a dylid bod modd i chi weld yr wybodaeth hon ar wefan eich awdurdod lleol. Cofiwch – fel gofalwr, mae gennych hawl i asesiad gofalwr. Os nad ydych chi'n gwybod ym mha awdurdod lleol rydych chi'n byw, cewch wybod ar www.gov.uk.

Gallai gwybod lle yw eich gwasanaeth gofalwyr agosaf fod yn ddefnyddiol. Mae gwasanaethau gofalwyr yn fudiadau lleol sy'n darparu cymorth a chyngor i ofalwyr. Cewch wybod lle yw eich gwasanaeth lleol drwy nodi eich cod post ar ein gwefan ar www.carers.org.